**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2701

# Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005

## RHAN 3

## CEISIADAU AM WASANAETH CYFRYNGOL

**Cydsyniad y gwrthrych i ddatgelu etc.**

**7.**—(1) Rhaid i asiantaeth gyfryngol beidio â datgelu i'r ceisydd unrhyw wybodaeth adnabod am y gwrthrych heb yn gyntaf gael cydsyniad y gwrthrych.

(2) Rhaid i'r asiantaeth gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gan unrhyw berson y mae'n ofynnol cael ei gydsyniad i ddatgelu o dan y rheoliad hwn ddigon o wybodaeth i alluogi iddo wneud penderfyniad deallus ynghylch cydsynio i unrhyw ddatgeliad o'r fath.

(3) Os yw'r gwrthrych wedi marw neu os yw'r asiantaeth gyfryngol yn penderfynu nad yw'r gwrthrych yn alluog i roi cydsyniad deallus, caiff yr asiantaeth gyfryngol ddatgelu yr wybodaeth adnabod honno am y gwrthrych yr ystyria ei bod yn briodol o ystyried y materion a nodir yn rheoliad 6.

(4) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliadau 9 a 12, ystyr "gwybodaeth adnabod" yw gwybodaeth sydd, o'i chymryd ar ei phen ei hun neu ynghyd â gwybodaeth arall sydd ym meddiant y ceisydd, yn galluogi i'r gwrthrych gael adnabod neu'i olrhain.